**ADRODDIAD COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

**HEDDLU DE CYMRU**

**TEITL:** **Adroddiad Praesept a Chynigion y Gyllideb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru Cynigion ar gyfer 2023/2024, a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023 i 2027**

**DYDDIAD:** **7 Chwefror 2023**

**PWRPAS:** **Ar gyfer Cymeradwyaeth**

**a nodi**

| | |
|---|---|
| **1 .** | **ARGYMHELLIAD**<br>Bod panel yr Heddlu a Throsedd **yn cymeradwyo'r** praesept sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad y Comisiynydd a'r Trysorydd sydd ynghlwm ac yn **nodi' r** Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023 i 2027 sydd wedi'i hatodi. |
| **2 .** | **RHAGARWEINIAD & CHEFNDIR**<br>Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu osod gofyniad y Gyllideb Flynyddol (Cytbwys) gan gynnwys elfen Praesept yr Heddlu o Dreth y Cyngor (Praesept Treth y Cyngor) a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.<br><br>Mae rhesymeg y Comisiynwyr a'i gais i'r Panel wedi'u nodi yn y papur hwn ac mae'r cynnig ffurfiol wedi'i osod yn llawn yn Adroddiad y Comisiynydd, sydd wedi'i gefnogi gan Drysorydd y Comisiynydd, ar gynnig y Praesept. Atodir hefyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023 i 2027 ategol. |
| **3.** | **MAE COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU YN AMLINELLU'R MATERION AR GYFER YSTYRIAETH FEL A GANLYN:**<br><br>Mae gosod y praesept ar gyfer 2023-2024 wedi bod y broses anoddaf yn ystod y 10 mlynedd ers i mi gael y cyfrifoldeb o argymell y lefel o gefnogaeth leol ar gyfer Plismona yn Ne Cymru.<br>Mae'r argyfwng costau byw yn taro bob unigol a bob gwasanaeth, ond mae'n cael mwy o effaith ar y rhai sydd fwyaf bregus yn y gymdeithas a dyna pam rwyf am osgoi cynyddu'r lefel gadw ymhellach nag sydd wirioneddol yn angenrheidiol. Ond rhaid i gyllideb yr heddlu fod ar lefel sy'n caniatáu i'n swyddogion a staff gadw pobl yn ddiogel yn y gymuned - atal trosedd a niwed, ymateb i droseddu a llu o heriau eraill a gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cymunedau diogel, gwydn yn y ffordd yr ydym wedi cydweithio mor effeithiol cyn, ac ers pandemig COVID -19.<br>Elfen graidd o gyllid yr heddlu yw Grant yr Heddlu a gyhoeddir bob mis Rhagfyr gan Weinidog yn y Swyddfa Gartref – mae'n ddrwg gennyf ddweud bod Llywodraeth y DU wedi methu â chynnal Grant yr Heddlu ar lefel a fyddai'n ein galluogi i osod praesept cymedrol. |

Cafodd y cyfnod diwethaf o galedi effaith fawr ar gapasiti'r heddlu. Collodd Heddlu De Cymru tua 400 o swyddogion yr heddlu a 100 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ogystal â llawer o staff yr heddlu. Arweiniodd hyn at nifer o swyddogion yr heddlu a oedd yn is na'r hyn a ddisgrifiodd y prif gwnstabl ar y pryd, Peter Vaughan, fel nifer "diogel". Bu i ni gymryd bob cam posibl i adfer niferoedd yn y blynyddoedd dilynol.

Mae'r llywodraeth wedi - yn hwyr - darparu'r arian i gyflogi mwy o swyddogion yr heddlu, gan adfer y cyfanswm i ychydig o dan y nifer a gyflogwyd gan Heddlu De Cymru yn 2010. Mae hynny i'w groesawu, er y bydd cryn amser cyn bydd y swyddogion hynny'n hollol brofiadol. Heddiw, mae gan 54% o swyddogion llai na pum mlynedd o brofiad sy'n gosod heriau i reolwyr yr heddlu. Ac yn y blynyddoedd i ddod, bydd angen i ni ddod o hyd i arian o rywle arall i dalu eu codiadau cyflog a chynnal eu capasiti oherwydd nad yw hynny'n cael ei ariannu gan y llywodraeth ganolog. Ac nid yw Grant yr Heddlu ar gyfer 2023/2024 yn cynnwys unrhyw lwfans ar gyfer dyfarniad cyflog staff 2023 y bydd yn rhaid ei ddarganfod o doriadau.

Mae ein huchelgais i gryfhau cymdogaethau , plismona ac ymateb i anghenion y gymuned leol wedi cael ei gynorthwyo'n aruthrol gan ddarpariaeth ychwanegol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd disgwyliad a rhwymedigaeth i gynnal y niferoedd o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir o Grant yr Heddlu cymaint ag y caniateir.

Y broblem allweddol yw bod y "cynnydd" ychwanegol mewn cyllid yn cael ei ddarparu ar ben y grant heddlu sylfaenol, sydd ond ar lefel "arian gwastad". Mae hyn - mewn gwirionedd - yn doriad sylweddol. Cawn ein cosbi os byddwn yn lleihau nifer yr heddlu o'i gyfanswm presennol a bod hynny'n dileu'r hyblygrwydd a ddefnyddiwyd i fantoli'r cyfrifon yn ystod y degawd diwethaf.

Rwy'n un o nifer o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a ysgrifennodd at yr Ysgrifennydd Cartref yn ymbil am lefel o grant yr heddlu a fyddai'n cynnal cyfraniad teg gan y trysorlys i blismona lleol. Yr ydym yn gwrthwynebu'r ffordd y mae Gweinidogion wedi symud y baich oddi ar y Trysorlys ac ar y rhai sy'n talu treth y cyngor lleol, ond mae realiti setliad Grant yr Heddlu eleni yn symudiad pellach i'r cyfeiriad hwnnw. Yn syml, nid yw symiau'r Llywodraeth yn dal dŵr ac eto mae gennyf rwymedigaeth gyfreithiol i ddod â chyllideb gytbwys gerbron a'r rhwymedigaeth sy'n sefyll uwchlaw popeth arall i gadw cymunedau De Cymru yn ddiogel drwy sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl yr adnoddau i wneud y gwaith.

Mae atal yn well na gwella a bydd ein cyflwyniad yn dangos hynny.
O gymharu â heddluoedd tebyg, ni yw'r rhai mwyaf llwyddiannus o ran lleihau troseddu sy'n dod â gostyngiad yn nifer y dioddefwyr, gwerth clir mewn osgoi costau i ein

cymunedau a llwyddiant yn y cyfrifoldeb canolog o blismona - i atal trosedd a niwed. **Wrth gwrs, nid yw hynny'n dod ag elw i mewn i gyllideb yr heddlu, ond mae'n rhywbeth yr ydym yn ysu i barhau i'w wneud.**

Felly, heddiw rydym ni'n wynebu bwlch o a £20.8 miliwn mewn cyllid y mae'n rhaid ei gynnal trwy doriadau a praesept.

Mae fy nghynigion i'r Panel ond yn ddigonol pe gallwn ganfod ffordd o dorri £9.6 miliwn arall o wariant eleni. Ac er bod tîm cyfan Heddlu De Cymru yn ymroddedig i wneud popeth o fewn ein gallu i ddod o hyd i arbedion i sicrhau bod y baich ar bobl leol mor isel ag y gall fod, mae yna gyfyngiad ar yr hyn sy'n bosibl. Er y byddwn yn torri costau i ddod o fewn y gyllideb nid oes unrhyw ffordd y gall yr arbedion fod yn ddigon i lenwi'r bwlch yn enwedig gan fod yn rhaid i ni ddelio â chwyddiant a chostau cynyddol tanwydd, ynni, systemau TG a chostau adeiladu.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, trwy'r cyfnod blaenorol o galedi, fe welsom ni £62 miliwn mewn arbedion ac er gwaethaf hynny mae Heddlu De Cymru wedi parhau i berfformio'n aruthrol, i safon uchel iawn:

- **cyflawni fel un o'r heddluoedd sy'n perfformio orau ar draws y DU.**
- **amddiffyn y rhai mwyaf bregus, ar adeg pan fydd y rhai mwyaf bregus yn mynd i fod ein hangen fwyaf.**
- **Cadw plismona lleol a datrys problemau wrth wraidd yr hyn a wnawn.**

Hyd yn oed yn y cyfnod anodd hwn, credaf ein bod yn cyflawni mwy gydag eraill nag y gallwn ei gyflawni ar ein pen ein hunain, felly rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru ac yn arbennig gydag eraill yn y system cyfiawnder troseddol i ddarparu gwasanaethau craidd. Rydym yn benderfynol o wneud y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru "y mwyaf effeithiol, y mwyaf effeithlon a'r decaf y gall fod". Nid dyhead yn unig yw hynny, ond rhywbeth yr ydym yn gwneud cynnydd gwirioneddol yn ei gylch.

Ac yn erbyn y cefndir hwn i gyd, mae galw'n cynyddu mewn perthynas ag anghenion y cyhoedd na fyddent fel arfer yn cael eu hystyried yn gyfrifoldeb yr heddlu, ond mae'r cyhoedd yn troi at yr heddlu ar adegau o angen.

**Er mwyn cynnal y cyllid presennol ar draws yr holl ofynion byddai angen cynnydd praesept o dros 13%, a ni allaf hyd yn oed ei ystyried, ond gyda'r pwysau ychwanegol a ddisgrifiwyd uchod, mae'n amhosibl bellach cadw lefel y cynnydd i lawr i'r 5% a ragamcanwyd yn y cynllun ariannol tymor canolig a gyflwynwyd i'r panel blaenorol y llynedd.**

Rwyf felly wedi dod i'r casgliad na fydd yn ddiogel cynnig praesept o lai na 7.4% ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae goblygiadau hynny wedi'u nodi isod. Bydd hynny'n darparu cyllideb ymarferol, ond nid heb wneud toriadau **sylweddol** ac arbedion mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd i fantoli'r cyfrifon.

| | |
|---|---|
| | Yng nghyfarfod y panel byddaf yn hapus i roi rhagor o fanylion a bydd y Prif Gwnstabl yn egluro'n llawn yr amgylchiadau tynn iawn y bydd hyn yn eu darparu iddo wrth fodloni anghenion gweithredol cymunedau de Cymru.<br>**Mae'n bwysig nodi na fydd y rhan fwyaf o bobl yn talu'r cynnydd llawn a amlinellir isod oherwydd bod y ffigyrau'n seiliedig ar eiddo band D.**<br>Nid wyf yn hapus ynghylch gorfod cynnig y cynnydd penodol hwn yn y praesept, ond ni allaf roi pobl De Cymru mewn perygl a buaswn yn methu yn fy nyletswydd pe na bawn yn sicrhau ein bod nid yn unig yn cynnal y gwasanaeth ond yn parhau i fynd i'r afael â'r materion mawr o ran yr hyn mae'r cyhoedd am ei gael ac yn ei ddisgwyl i Heddlu De Cymru ei gyflawni.<br><br>Rwyf felly yn argymell, ac yn gofyn i'r panel gymeradwyo, y cynnydd yn y praesept a amlinellir yn fanwl yn y dogfennau a ganlyn:<br>Mae'r Adroddiad ar Gynnig y Gyllideb a'r Praesept gennyf fi a'm Trysorydd (Prif Swyddog Cyllid) Peter Curran yn crynhoi'r cyd-destun, y pwysau o ran costau a'r rhesymeg dros y cynnig ar gyfer y Praesept a gofynnir i'r Panel gymeradwyo'r adroddiad. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cefnogi'r Adroddiad ac mae'n cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o'r holl wybodaeth ariannol berthnasol, gan gynnwys pwysau costau, rhaglen gyfalaf a chyllid a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.<br><br>Argymhellion yr adroddiadau yw:<br>1. Cymeradwyo cynnig Praesept y Comisiynydd o gynnydd o £1.86 y mis fesul eiddo cyfwerth â Band D yn 2023/2024, sy'n cyfateb i gynnydd o 7.4% ar gyfradd 2022/2023.<br>2. Yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/2024 o £358,698,700.<br>3. Yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/2024 o £35.5 miliwn.<br><br>Adroddiad ar Gynnig y Gyllideb a'r Praesept – mae hwn yn crynhoi'r cyd-destun, pwysau costau a'r rhesymeg dros y cynnig ar gyfer y Praesept.<br><br>Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cefnogi'r Adroddiad ac mae'n cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o'r holl wybodaeth ariannol berthnasol, gan gynnwys pwysau costau, rhaglen gyfalaf a chyllid a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys . |
| **4.** | **<u>CAMAU NESAF</u>**<br>Bydd y Panel yn ystyried yr adroddiad ynghyd â'r cyflwyniad cysylltiedig. Bydd hyn cynnwys goblygiadau incwm y Praesept i'w adennill gan bob un o'r saith Awdurdod Lleol sy'n rhan o ôl troed Heddlu De Cymru. |

| | |
|---|---|
| | |
| **5.** | **<u>YSTYRIAETHAU ARIANNOL</u>**<br>Mae'r goblygiadau ariannol wedi'u mynegi'n llawn yn adroddiad y Comisiynydd a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ategol. |
| **6.** | **<u>YSTYRIAETHAU O RAN STAFF</u>**<br>Mae Strategaeth Pobl a Datblygiad Sefydliadol Heddlu De Cymru wedi'i chynnwys yn Atodiad 4 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae'n cynnwys yr holl ystyriaethau o ran staff. |
| **7.** | **<u>GOBLYGIADAU CYFREITHIOL</u>**<br>Mae'r adroddiad yn unol â Rheoliadau Paneli'r Heddlu a Throsedd (Praeseptau a Phenodiadau Prif Gwnstabl) 2012. Mae'r Rheoliadau 2012 hyn yn gosod terfynau amser ar gyfer cymryd y camau a nodir yn Atodlen 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.<br><br>Rhaid i'r Comisiynydd hefyd gydymffurfio ag adrannau 25-28 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd bennu cyllideb gytbwys. |
| **8.** | **<u>YSTYRIAETHAU CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL</u>**<br>Mae'r cynnig hwn wedi'i ystyried yn erbyn y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb, fel y nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac mae wedi'i asesu i beidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp penodol .<br><br>Wrth baratoi'r adroddiad hwn, ystyriwyd gofynion yr Erthyglau sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998. |
| **9.** | **<u>RISG</u>**<br>Mae gwahanol senarios risg ariannol wedi'u cynnwys a'u hegluro yn y ddogfennaeth sydd ynghlwm. |
| **10.** | **<u>BUDD Y CYHOEDD</u>**<br>Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei roi ar wefan y Comisiynydd a Phanel yr Heddlu a Throseddu. |
| **11.** | **<u>SWYDDOG CYSWLLT</u>**<br>Peter Curran, Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer De Cymru. |
| **12.** | **<u>ATODIADAU</u>**<br>Adroddiad y Trysorydd 2023<br>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023 i 2027 |